***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

ATODLEN 15

RHYDDHAD AR GYFER TRAFODIADAU PENODOL SY'N YMWNEUD Â THAI CYMDEITHASOL

## RHAN 3

LESOEDD RHANBERCHNOGAETH

*Les ranberchnogaeth: dewis triniaeth gwerth marchnadol*

3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo—

(a) les yn cael ei rhoi—

(i) gan gorff cymwys, neu

(ii) yn unol â'r hawl i brynu a gadwyd,

(b) yr amodau yn is-baragraff (2) wedi eu bodloni, ac

(c) y prynwr yn dewis i dreth gael ei chodi yn unol â'r paragraff hwn.

(2) Yr amodau yw—

(a) bod rhaid i'r les fod ar gyfer annedd;

(b) bod rhaid i'r les roi'r hawl i ddefnyddio'r annedd i'r tenant, a neb arall;

(c) bod rhaid i'r les ddarparu i'r tenant gaffael y rifersiwn;

(d) bod rhaid i'r les gael ei rhoi yn rhannol fel cydnabyddiaeth ar gyfer rhent ac yn rhannol fel cydnabyddiaeth ar gyfer premiwm a gyfrifir ar sail—

(i) gwerth marchnadol yr annedd, neu

(ii) swm a gyfrifir ar sail y gwerth hwnnw;

(e) bod rhaid i'r les gynnwys datganiad o—

(i) gwerth marchnadol yr annedd, neu

(ii) y swm a gyfrifir ar sail y gwerth hwnnw;

y cyfrifir y premiwm ar ei sail.

(3) O ran dewis i dreth gael ei chodi o dan y paragraff hwn—

(a) rhaid cynnwys hynny ar y ffurflen dreth a ddychwelir mewn cysylltiad â rhoi'r les (neu mewn diwygiad i'r ffurflen dreth honno), a

(b) mae'n ddi-alw'n-ôl, fel na chaniateir diwygio'r ffurflen dreth er mwyn tynnu'r dewis yn ôl.

(4) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys cymerir mai'r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer rhoi'r les yw'r swm a nodir yn y les yn unol ag is-baragraff (2)(e)(i) neu (ii).

(5) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys rhaid diystyru'r rhent a grybwyllir yn is-baragraff (2)(d) at ddibenion treth trafodiadau tir.

(6) Nid yw adran 70 (ystyr gwerth marchnadol) yn gymwys i'r paragraff hwn.